15 Medi 2021

Annwyl Riant / Ofalwr,

Rwy'n ail-adrodd y cyngor a dderbyniwyd gan yr Ysgol yn sgil y cynnydd diweddar yn lleol yn y niferoedd sydd yn dioddef o Covid-19.
Mae'r Ysgol yn gweithredu yn unol â'r canllawiau hyn yn barod, yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd awyru, golchi dwylo, a glanhau byrddau a chyfarpar ar ddiwedd pob gwers.
Rydym hefyd yn parhau i asesu'r risg sydd ynghlwm ag amryw o weithgareddau yn yr Ysgol.
Bydd yr ysgol yn parhau i atgoffa disgyblion o'r angen i lynu at hanfod y negeseuon a drosglwyddir yn feunyddiol iddynt yn ystod cofrestru ac yn ystod gwersi.

Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Iechyd Lleol bod lefel y risg ym Mae Abertawe ar hyn o bryd yn cyfateb i'r sgôr "Uchel" ar y fframwaith cenedlaethol, dyma restr o'r mesurau lliniaru priodol y dylai ysgolion eu rhoi ar waith nawr o fewn eu hadeiladau:

- osgoi cynnal digwyddiadau ar gyfer grwpiau mawr, fel gwasanaethau ysgol (grwpiau blwyddyn gyfan mewn Ysgol Uwchradd / ysgol gyfan yn yr Ysgol Gynradd)
- defnyddio systemau unffordd
- cynlluniau eistedd cyson (gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr iau)
- defnyddio mannau awyr agored lle y bo hynny'n bosibl
- arwyddion ar y llawr
- Rhoi mesurau cadw pellter corfforol a chynlluniau eistedd ar waith mewn ystafelloedd dosbarth. Gall hyn gynnwys desgiau sy'n wynebu'r blaen yn dibynnu ar faint yr ystafell ac asesiad risg, gan gydnabod efallai na fydd hyn yn bosibl gyda phlant iau na dysgwyr y mae angen cymorth un i un arnynt.
- Cynnig profion llif unffordd ddwywaith yr wythnos i staff a dysgwyr uwchradd er mwyn helpu i nodi ac ynysu achosion asymptomatig cyn gynted â phosibl.
- Dylai dysgwyr oed uwchradd wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol. Argymhellir y dylid parhau i wisgo gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol.
- Dylai staff ac ymwelwyr wisgo gorchuddion wyneb wrth symud o amgylch ardaloedd cymunedol dan do y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel coridorau, lle nad oes modd cadw pellter corfforol.

Os yw eich plentyn wedi'i nodi yn gyswllt agos i achos o COVID-19 yn Ysgol Gyfun Gwyr, gall eich plentyn barhau i fynychu'r ysgol cyn belled â bod eich plentyn yn teimlo'n iach, er bod yna risg y bydd eich plentyn yn cael COVID-19

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

I roi tawelwch meddwl ichi **os yw eich plentyn wedi'i nodi yn gyswllt agos**, rydym yn argymell eich bod yn trefnu prawf PCR (ar gyfer eich plentyn). Gallwch wneud hyn ar ôl derbyn y llythyr hwn ac ymhen 6 diwrnod. Gallwch drefnu prawf PCR ar-lein drwy wefan y GIG yn www.gov.uk/get-coronavirus-test neu drwy ffonio 119.

Yn gyffredinol, rydym yn gwybod nad yw COVID-19 yn effeithio ar bobl ifanc mewn ffordd mor ddifrifol ag y mae ar eraill yn ein teuluoedd a'n cymuned. Ond er mwyn helpu i gadw eraill yn ddiogel, mae yna rai pethau y gall eich plentyn eu gwneud i leihau'r risg o ledaenu'r haint **os yw eich plentyn wedi'i nodi yn gyswllt agos**. Dros y 10 diwrnod nesaf, rydym yn argymell bod eich plentyn yn dilyn y cyngor isod **os yw wedi'i nodi yn gyswllt agos**.

- **Osgoi cyswllt ag unrhyw un sydd mewn perygl uwch o effeithiau COVID-19.**
  Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn, y rheini sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, ac unrhyw un sydd heb gael cwrs llawn o frechlyn COVID-19.
- **Bod ar wyliadwriaeth am symptomau newydd.**
  Os bydd eich plentyn yn dechrau teimlo'n anhwylus, pa mor ysgafn bynnag yw'r symptomau, dylai eich plentyn gadw draw o'r ysgol a chael prawf PCR.
- **Cyfyngu ar gysylltiad â grwpiau mawr o bobl gymaint â phosibl.**
  Ceisiwch gadw nifer y bobl sydd mewn cysylltiad agos â'ch plentyn mor isel â phosibl. Osgowch gynulliadau mawr tu allan i'r ysgol, digwyddiadau cymdeithasol (e.e. partïon pen-blwydd) a gweithgareddau ar ôl ysgol.
- **Parhau i olchi eich dwylo yn rheolaidd.**
  Mae hon yn dal i fod yn ffordd bwysig o gyfyngu ar ledaeniad llawer o heintiau, gan gynnwys COVID-19.

Os bydd eich plentyn yn dal i fod yn iach, ar ôl 10 diwrnod cewch ailgydio yn eich gweithgareddau arferol.

Rydym yn gwybod cymaint mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi tarfu ar fywyd pawb. Y flwyddyn hon, rydym am eich cadw chi/cadw eich plentyn yn yr ysgol gymaint â phosibl, ond rydym hefyd am gadw ein cymunedau yn ddiogel rhag effeithiau COVID-19. Rydym yn gobeithio y bydd modd i chi chwarae eich rhan drwy ddilyn y cyngor uchod **os yw eich plentyn wedi'i nodi yn gyswllt agos**.

Yn gywir

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

15 September 2021

Dear Parent / Carer,

I would like to re-iterate the advice received by the School as a result of the recent increase in the number of Covid-19 cases locally.
The School is already operating in accordance with the measures , as well as emphasising the requirement to ventilate all indoor spaces adequately, clean tables and resouces at the end of lessons.We are also contnuing to monitor the situation and assessing the risk associated with activities in School.
The School will continue to remind pupils of the need to adhere to these measures and precautions, messages which are relayed to them on a daily basis in morning registration and in lessons.

Following the decision of the Regional Health Board that the level of risk in Swansea Bay is currently equivalent to the "High" rating on the framework here is a list of the appropriate mitigations that schools should now put in place within their buildings:

- not holding large group gatherings such as assemblies (whole year groups in Comp/whole school in Primary)
- the use of one way systems within the school building
- consistent seating plans (recognising this may not be possible for younger learners)
- using outdoor spaces where possible
- floor signage
- Physical distancing and seating plans in place in classrooms. This may include forward facing desks depending on room capacity and risk assessment, recognising that this may not be possible with younger children or with learners that require one to one support.
- Twice weekly LFD testing available for staff and secondary learners to help identify and isolate asymptomatic cases as soon as possible.
- Face coverings should be worn by secondary aged learners when moving around indoor communal areas outside of the classroom, such as corridors, where physical distance cannot be maintained. Face coverings continue to be recommended on school transport.
- Face coverings should be worn by staff and visitors in schools when moving around indoor communal areas outside of the classroom, such as corridors, where physical distance cannot be maintained.

If your child has been identified as a close contact of a case of COVID-19 at Ysgol.Gyfun Gwyr, your child can continue to attend school provided your child remain well, although there is still a risk of your child getting COVID-19

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

If your child has been identified as a close contact, for additional peace of mind we recommend that you book a PCR test for your child. You can do this on receipt of this letter and in 6 days time. You can book a PCR test online through the NHS website at www.gov.uk/get-coronavirus-test or by calling 119.

We know that in general COVID-19 doesn't affect young people as seriously as it does others in our families and community. But to help keep others safe, **If your child has been identified as a close contact**, there are still some things your child can do to reduce the risk of spreading the infection. **If your child has been identified as a close contact**, for the next 10 days we recommend that your child:

- **Avoid contact with anyone at greater risk from the effects of COVID-19 infection.**
  This includes older people, those with long-term health conditions, and anyone who hasn't received a full course of COVID-19 vaccine.
- **Be alert for new symptoms.**
  If your child starts to feel unwell, no matter how mild the symptoms are, your child should stay away from school and get a PCR test.
- **Limit contact with large groups of people as much as possible.**
  Try to keep the number of people in close contact with your child to as few as possible. Avoid large gatherings outside of school, social events (e.g. birthday parties) and after-school activities.
- **Keep washing hands regularly.**
  This is still an important way to limit the spread of many infections, including COVID-19.

If your child remain well after 10 days you can return to normal activities.

We know how disruptive the last year has been for everyone. This year we want to keep your child in school as much as possible, but we also want to keep our communities safe from the effects of COVID-19. We hope that you will be able to play your part by following the advice above.

Yours faithfully

Head

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk